

## Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

## Gweithiwr Cymdeithasol yn y Gwasanaeth Dementia Cynnar

**Parhaol, 37 awr yr wythnos**

**Gwaith Cymdeithasol Lefel 3**

**Graddfa G06 (SCP 28 - 31) £39,152 - £41,771**

**Lleoliad: Tŷ Dewi Sant, Ewlo**

Ydych chi'n angerddol am gefnogi a galluogi pobl?

Mae cyfle cyffrous ar gael ar gyfer Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol Lefel 3 profiadol yn y Gwasanaeth ar gyfer Dementia Cynnar. Rydym yn chwilio am ymgeisydd gyda phrofiad o gynnal asesiadau ar sail cryfder, ac sy'n gallu cynnig datrysiadau arloesol a chreadigol i sicrhau bod dinasyddion Sir y Fflint yn cael eu grymuso i gael llais, cynnal eu hannibyniaeth a chyflawni eu canlyniadau.

Fe fydd gan ddeiliad y swydd ddealltwriaeth o ddiagnosis dementia cynnar a'i effaith ar ddinasyddion, eu teuluoedd a gofalwyr a bydd gofyn iddynt:

- weithio'n agos gyda CPN Dementia Cynnar a Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Gweithiwr Cymdeithasol Arbenigol yr ardal
- ymgymryd â gwaith hwyluso grwpiau defnyddwyr gwasanaeth, i fynychu a datblygu rhwydweithiau cefnogaeth ehangach ar draws Sir y Fflint a Gogledd Cymru.

Fe fydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus ddealltwriaeth glir o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, Deddf Iechyd Meddwl (1983), Gofal Iechyd Parhaus y GIG a deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Gan weithio ar draws Sir y Fflint, bydd deiliad y swydd yn sicrhau cyfranogiad llawn dinasyddion a gofalwyr yn y broses o asesu a chynllunio gofal. Felly mae sgiliau cyfathrebu effeithiol, yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn allweddol i'r swydd; ynghyd â:

- gallu i greu a chynnal perthnasoedd gwaith da
- gallu gweithio'n dda mewn tîm
- gallu rheoli llwyth achos cymhleth ac amrywiol
- gallu gweithio gydag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol / gwaith aml-ddisgyblaethol
- Mae gallu siarad Cymraeg yn ddymunol.

Mae gweithio mewn ardaloedd yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i adeiladu ar berthnasoedd cadarnhaol gydag asiantaethau iechyd, gwirfoddol a'r trydydd sector mewn cymunedau lleol.

Gan y bydd y swydd hon yn golygu llawer o gyswllt ag oedolion mewn risg bydd rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus dderbyn gwiriad uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

I gael sgwrs anffurfiol, cysylltwch â: Jo Thomas, Rheolwr Tîm ar 01352 701388 neu Rebecca McGuigan ar 01352 701301

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn sgil pwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer y gweithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau am unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn hefyd yn cefnogi unrhyw aelodau newydd o staff neu staff presennol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella / datblygu eu sgiliau Cymraeg.